THE GOVERNING BODY OF THE CHURCH IN WALES

MINUTES

of a Meeting of

THE GOVERNING BODY

held on 17 and 18 September 2008

CORFF LLYWODRAETHOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU

COFNODION

Cyfarfod o'r

CORFF LLYWODRAETHOL

a gynhaliwyd ar 17 ac 18 Medi 2008

CORFF LLYWODRAETHOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU

COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD YN LLANBEDR PONT STEFFAN

AR 17 AC 18 MEDI 2008

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredin o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, ar ddydd Mercher 17 a dydd Iau 18 Medi 2008.

Yr oedd y Llywydd, Archesgob Cymru, yn y Gadair ar ddechrau'r cyfarfod.

Y Gwir Barchedig George Noakes a'r Gwir Barchedig Anthony Crockett

Safodd y Corff Llywodraethol i goffáu'r Gwir Barchedig George Noakes, Esgob Tyddewi o 1982 i 1991 ac Archesgob Cymru o 1987 i 1991, a fu farw ar 22 Gorffennaf 2008, a'r Gwir Barchedig Anthony Crockett, Esgob Bangor o 2004 i 2008, a fu farw ar 30 Mehefin 2008.

08/17 Gweddïau ac Astudiaeth Feiblaidd

Arweiniodd y Parchedig Ganon Madalaine Brady Astudiaeth Feiblaidd a Gweddïau.

08/18 Mandat y Llywydd

Yn unol ag Adran 18 Pennod II y Cyfansoddiad, tystiodd yr Ysgrifennydd Lleyg i Fandat y Llywydd gael ei weithredu'n gywir.

08/19 Cofnodion

Cadarnhawyd ac arwyddwyd Cofnodion y cyfarfod cyffredin o'r Corff Llywodraethol a gynhaliwyd ar 2 a 3 Ebrill 2008.

08/20 Materion yn Codi

Nid oedd materion yn codi.

08/21 Cynrychiolwyr o Cytûn ac o Eglwysi Eraill

Croesawodd y Llywydd gynrychiolwyr i'r cyfarfod o Cytûn ac o eglwysi eraill:

Cytûn
Mr Geraint Hopkins

Eglwys Iwerddon
Y Gwir Barchedig Michael A J Burrows, Esgob Cashel ac Ossory.

Yr Eglwys Fethodistaidd
Y Parchedig Cathy Lane

Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig
Y Parchedig Peter Trow

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Haydn Thomas

Byddin yr Eglwys
Mr Mark Russell

08/22 Anerchiad y Llywydd

Anerchodd y Llywydd y Corff Llywodraethol.

Penodwyd Mr Paul Bennett yn Aseswr am y diwrnod.

Gadawodd y Llywydd y Gadair a chymerwyd hi gan y Parchedig Ganon Jeremy Winston.

08/23 Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog

Cyflwynodd Ei Anrhydedd Philip Price CF, Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog, Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog a chynigiodd yr argymhellion a ganlyn a eiliwyd gan Mr Nigel Williams, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog:

Cynrychiolaeth yn Nhrydydd Cynulliad ar Ddeg Cynhadledd Eglwysi Ewrop

Penodi'r Parchedig Gwynn ap Gwilym i gynrychioli'r Eglwys yng Nghymru yn Nhrydydd Cynulliad ar Ddeg Cynhadledd Eglwysi Ewrop o 15 i 21 Gorffennaf 2009.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

Cymeradwyo'r Adroddiad

Cymeradwyo Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/24 Colegau Ethol

Cynigiodd yr Archesgob ac eiliodd Esgob Llanelwy y cynnig a ganlyn:

Bod y Corff Llywodraethol:

i) yn cymryd sylw o'r Adroddiad ar amseru'r Colegau Ethol i lenwi esgobaethau gwag Tyddewi a Bangor;

ii) yn penderfynu, yn unol ag Adran 26 Pennod VIII y Cyfansoddiad, llenwi'r swyddi gwag trwy'r:-

a) Coleg Ethol a gychwynnodd ar 1 Medi 2008 yn achos Esgobaeth Tyddewi; a'r

b) Coleg Ethol a fydd yn cychwyn ar 7 Hydref 2008, wedi hynny os bydd angen yn unol ag Adran 26 Pennod VIII, yn achos Esgobaeth Bangor.

Pasiwyd y penderfyniad gydag un yn ymatal.

08/25 Adroddiad Corff y Cynrychiolwyr

Cyflwynodd yr Arglwydd Rowe-Beddoe, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr, a Mr William Legge-Bourke, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr:

- Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corff y Cynrychiolwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2007.

- Cyfrifon y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2007.

- Cofnodion y Cyfarfodydd o Gorff y Cynrychiolwyr a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2007, 13 Mawrth a 6 Mehefin 2008.

Cynigiodd yr Arglwydd Rowe-Beddoe ac eiliodd Mr William Legge-Bourke y cynnig a ganlyn:

Bod Adroddiad Corff y Cynrychiolwyr yn cael ei gymeradwyo.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

Y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi

Gyda chaniatâd y Corff Llywodraethol, cyflwynodd Mr Douglas Hogg, Cadeirydd y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi, nodyn ar newidiadau a gynigiwyd i'r Comisiwn.

Yna cynigiodd yr Arglwydd Rowe-Beddoe ac eiliodd Deon Tyddewi y cynnig a ganlyn:

> Bod newid y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi i roi grym i'r cynigion a draethir yn nodyn Corff y Cynrychiolwyr o dan y teitl 'Y Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi'.
>
> Yn unol ag isadran (2) Adran 35 Pennod II y Cyfansoddiad, bod amodau'r cynnig hwn yn dod i rym ar unwaith.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

Cronfeydd Eglwysi Diangen

Gyda chaniatâd y Corff Llywodraethol, cyflwynodd Archddiacon Aberhonddu, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Eiddo Corff y Cynrychiolwyr, nodyn ar newidiadau a gynigiwyd i'r defnydd a wneir o'r Cronfeydd Eglwysi Diangen.

Yna cynigiodd yr Arglwydd Rowe-Beddoe ac eiliodd Mr Legge-Bourke y cynnig a ganlyn:

> Bod newid y Rheoliadau ar ddefnyddio elw gwerthu eglwysi a safleoedd eglwysi a mynwentydd i roi grym i'r argymhellion a draethir yn nodyn Corff y Cynrychiolwyr o dan y teitl 'Cronfeydd Eglwysi Diangen'.
>
> Yn unol ag isadran (2) Adran 35 Pennod II y Cyfansoddiad, bod amodau'r cynnig hwn yn dod i rym ar unwaith.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/26 Adroddiad Gweithgor y Pwyllgor Sefydlog ar Gynrychiolaeth Merched yn yr Eglwys yng Nghymru

Cynigiodd y Dr Gillian Todd, Cadeirydd y Gweithgor, ac eiliodd Mr Sandy Blair, y cynnig a ganlyn:

> Bod y Corff Llywodraethol:
>
> (i) yn derbyn ac yn croesawu Adroddiad y Gweithgor ar Gynrychiolaeth Merched yn yr Eglwys yng Nghymru ac yn cymeradwyo'r argymhellion sydd ynddo;
>
> (ii) yn cymeradwyo'r Adroddiad i'r dalaith, yr esgobaethau a'r deoniaethau i'w astudio ac i weithredu arno;

(iii) yn gofyn i'r Pwyllgor Sefydlog ddosrannu'r argymhellion yn yr Adroddiad i'r cyrff priodol i weithredu arnynt;

(iv) yn gofyn i'r Pwyllgor Sefydlog adrodd yn ôl ymhen tair blynedd ar yr hyn a wnaed i weithredu'r argymhellion.

Cynigiodd y Parchedig Peter Williams ac eiliodd y Parchedig Ganon Andrew Knight y gwelliant a ganlyn:

> Bod dileu pob gair yn dilyn y geiriau 'yr Eglwys yng Nghymru' fel bod y cynnig yn darllen fel a ganlyn:
>
> 'Bod y Corff Llywodraethol yn derbyn ac yn croesawu Adroddiad y Gweithgor ar Gynrychiolaeth Merched yn yr Eglwys yng Nghymru.'

Collwyd y gwelliant o 59 pleidlais i 46 gydag un yn ymatal.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol bleidleisio ar bob un o gymalau'r cynnig gwreiddiol ar wahân.

Derbyniwyd pob cymal.

08/27 <u>Amser Cwestiynau</u>

Rhoddwyd atebion llafar i gwestiynau ysgrifenedig gan yr Arglwydd Rowe-Beddoe, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr a'r Archesgob.

Gadawodd y Parchedig Ganon Jeremy Winston y Gadair a chymerwyd hi gan y Llywydd.

<u>Ordeinio Merched yn Offeiriaid: Darpariaeth Fugeiliol</u>

Gwnaeth yr Archesgob ddatganiad ar ddarpariaeth fugeiliol yn y dyfodol i'r rhai hynny yn yr Eglwys yng Nghymru na allant o gydwybod dderbyn ordeinio merched yn offeiriaid.

<u>Gohirio</u>

Gohiriwyd y cyfarfod tan drannoeth.

Gweithdai

Gyda'r nos cynhaliwyd gweithdai ar Adroddiad a Chyfrifon Corff y Cynrychiolwyr a materion eraill yn ymwneud â Chorff y Cynrychiolwyr.

Parhaodd y cyfarfod o'r Corff Llywodraethol ddydd Iau, 18 Medi 2008.

Gweinyddu'r Cymun Bendigaid

Bu gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid.

Yr oedd y Llywydd, Archesgob Cymru, yn y Gadair.

08/28 Adroddiad o Gynhadledd Lambeth

Siaradodd pob un o'r esgobion ac Esgob Cashel ac Ossory am Gynhadledd Lambeth yn ddiweddar ac atebasant gwestiynau gan yr aelodau.

Penododd y Llywydd Mr David Lambert yn Aseswr am y diwrnod.

Gadawodd y Llywydd y Gadair a chymerwyd hi gan y Tra Pharchedig Alun Hawkins, Deon Bangor.

08/29 Byddin yr Eglwys

Gyda chaniatâd y Corff Llywodraethol, rhoddodd Mr Mark Russell, Prif Weithredwr Byddin yr Eglwys, gyflwyniad ar ei waith.

08/30 Adroddiad Aelodaeth a Chyllid

Cynigiodd y Gwir Barchedig David Yeoman, Esgob Cynorthwyol Llandaf, ac eiliodd Mr Nigel King, y cynnig a ganlyn:

Bod y Corff Llywodraethol yn cymryd sylw o'r Adroddiad hwn.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/31 Ymgynghoriad Adolygiad Addysg yr Eglwys yng Nghymru

Cynigiodd Esgob Llanelwy ac eiliodd y Parchedig Edwin Counsell y cynnig a ganlyn:

> Bod y Corff Llywodraethol yn cymryd sylw o waith Adolygiad Addysg yr Eglwys yng Nghymru ac yn cefnogi a chymryd rhan yn y broses o ymgynghori cyn cyhoeddi'r Adroddiad yn 2009.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/32 Adroddiad Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Gyda chaniatâd y Corff Llywodraethol, siaradodd Mr Gwilym Jones, Pennaeth Cyfadran Addysg a Hyfforddiant Coleg y Drindod, Caerfyrddin, ar ei Adroddiad Blynyddol.

Yna cynigiodd yr Archesgob ac eiliodd y Cadeirydd y cynnig a ganlyn:

> Derbyn Adroddiad Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/33 Arweinlyfr Gwyrdd y Plwyf

Cynigiodd yr Archesgob ac eiliodd y Dr Peter Padley y cynnig a ganlyn:

> Bod y Corff Llywodraethol yn:
>
> (i) cefnogi'r broses a amlinellir yn y nodyn 'Materion Gwyrdd a'r Arweinlyfr Gwyrdd' fel dull o wella perfformiad amgylcheddol yr Eglwys;
>
> (ii) cymeradwyo Arweinlyfr Gwyrdd y Plwyf i'w ddefnyddio yn y plwyfi.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/34 Gwasanaethau Amgen a Gynigiwyd ar gyfer Angladdau

Cynigiodd Esgob Mynwy ac eiliodd y Parchedig Ganon Dr Keith Denison y cynnig a ganlyn:

> Yn unol ag Adran 1 y Canon a gyhoeddwyd ar 29 Medi 1955 i alluogi defnyddio'n arbrofol ddiwygiadau a gynigiwyd i'r Llyfr Gweddi Gyffredin ac a gymeradwywyd yn amodol gan Fainc yr Esgobion, bod y Corff Llywodraethol yn caniatáu trwy hynyma ddefnyddio'n arbrofol am gyfnod heb fod yn fwy na deng mlynedd y '*Gwasanaethau Amgen ar gyfer Angladdau yn yr Eglwys yng Nghymru*' (argraffwyd ym mis Awst 2008).

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

Gadawodd y Tra Pharchedig Alun Hawkins, Deon Bangor, y Gadair a chymerwyd hi gan Esgob Llanelwy.

08/35 <u>Adolygu Llysoedd yr Eglwys yng Nghymru</u>

Gyda chaniatâd y Corff Llywodraethol, cyflwynodd Mr Gerard Elias CF yr Adroddiad yr oedd ef a Mr Andrew Keyser CF wedi ei baratoi ar Lysoedd yr Eglwys yng Nghymru.

Yna cynigiodd Mr Nigel Williams ac eiliodd y Cadeirydd y cynnig a ganlyn:

Bod y Corff Llywodraethol yn:

(i) cymryd sylw o'r cynigion yn adroddiad Mr Gerard Elias CF a Mr Andrew Keyser CF;

(ii) croesawu'r cynnig i symleiddio strwythur llysoedd yr Eglwys;

(iii) gwahodd y Pwyllgor Sefydlog i gyflwyno Bil i weithredu'r cynigion yn yr adroddiad ar yr un pryd ag y cyflwynir Bil i weithredu'r cynigion ynglŷn ag Amodau Gwaith Clerigion.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/36 <u>Adroddiad ar Amodau Gwaith Clerigion</u>

Cynigiodd Esgob Mynwy ac eiliodd Archddiacon Wrecsam y cynnig a ganlyn:

Bod y Corff Llywodraethol yn:

(i) cymryd sylw o'r adroddiad o dan y teitl 'Adolygiad o Amodau Gwaith Clerigion – Hydref 2008';

(ii) cymeradwyo'r:

(a) Cynlluniau Drafft at Ymddygiad Proffesiynol Clerigion a'r Datganiad Drafft o Amodau Gwaith Penodiadau Clerigol, a'r

(b) cynigion newydd ar Bolisi a Gweithdrefnau Disgyblu;

(iii) gwahodd y Gweithgor i ymgynghori'n eang â'r Eglwys yng Nghymru ar y cynigion ar Bolisi a Gweithdrefnau Disgyblu;

(iv) gwahodd y Pwyllgor Sefydlog i gyflwyno Bil i weithredu'r holl gynigion ar 'Ddaliadaeth Gyffredin'.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/37 Cynigion Aelodau Preifat

Cynigiodd y Dr Peter Padley ac eiliodd Mr Nigel King y cynnig a ganlyn:

> Bod y Corff Llywodraethol yn gwahodd ei holl aelodau i roi gerbron restr o hyd at bump o weithiau* a fu o werth iddynt yn eu bywyd ysbrydol. (*Cymerir y Beibl yn ganiataol.)

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/38 Prosiect Deintyddol Gasa

Rhoddodd yr Hybarch Phillip Morris, Archddiacon Margam, adroddiad ar Brosiect Deintyddol Gasa.

08/39 Y Gronfa Genhadaeth Dramor

Cynigiodd y Cadeirydd ac eiliodd yr Archesgob y cynnig a ganlyn:

> Bod y Corff Llywodraethol yn cymryd sylw o'r Adroddiad hwn.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

08/40 Adroddiad Blynyddol Cymdeithas y Gweddwon, Amddifaid a Dibynyddion

Cynigiodd y Cadeirydd ac eiliodd yr Hybarch Robert Williams, Archddiacon Gŵyr a Chadeirydd Cymdeithas y Gweddwon, Amddifaid a Dibynyddion, y cynnig a ganlyn:

> Bod y Corff Llywodraethol yn cymryd sylw o'r Adroddiad hwn.

Pasiwyd y penderfyniad yn unfrydol.

Y Gwir Barchedig John Davies

Talodd yr Archesgob deyrnged i'r Gwir Barchedig John Davies, Esgob Llanelwy, a fydd yn ymddeol cyn cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol.

08/41 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod cyffredin nesaf y Corff Llywodraethol ar 21 a 22 Ebrill 2009 yn Venue Cymru, Llandudno.

Daeth busnes y Cyfarfod i ben a rhoddodd Archesgob Cymru y Fendith.

Cynhyrchwyd gan Adran Gyhoeddiadau yr Eglwys yng Nghymru ac argraffwyd ar ddefnyddiadau a ailgylchwyd
Produced by the Church in Wales Publications Department and printed on recycled materials